# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 2 Gorffennaf 2002

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru

### Polisïau i Fynd i'r Afael â Throseddu

**C13 Ann Jones:** Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael â Gweinidogion Llywodraeth y DU ar bolisïau i fynd i'r afael â throseddu yng Nghymru? (OAQ18669)

**Prif Weinidog Cymru (Rhodri Morgan):** Mae'r dull o frwydro yn erbyn troseddau drwy bartneriaethau lleol yn gwneud cryn wahaniaeth mewn cymunedau ar draws Cymru. Mae partneriaethau lleol i leihau troseddau ac anhrefn yn rhoi prosiectau ar waith sy'n targedu'r mannau lle y ceir llawer o droseddu, trais domestig a throseddau'n ymwneud â chyffuriau. Caiff yr arian ar gyfer y prosiectau hyn ei sianelu'n benodol i mewn i'r cymunedau mwyaf difreintiedig, ac mae'n cyfrannu llawer tuag at adeiladu cymunedau mwy diogel a chynhwysol. Caiff hynny ei ategu gan y cyfrifoldebau ychwanegol yn y maes hwn a roddais yn ddiweddar i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau.

### Rôl Cymru mewn Materion Rhyngwladol

**C14 John Griffiths:** Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael yn ddiweddar gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch rôl Cymru mewn materion rhyngwladol? (OAQ18682)

**Prif Weinidog Cymru:** Yr wyf yn cwrdd ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn aml a byddwn yn trafod ystod o faterion, y mae llawer ohonynt yn ymwneud â rôl Cymru yn y byd.

### Llythyron Owain Glyndŵr

**C15 Janet Ryder:** Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch llythyron Owain Glyndŵr a gedwir ar hyn o bryd ym Mharis, Ffrainc? (OAQ18670)

**Prif Weinidog Cymru:** Dim yn ddiweddar. Yn 2000, o ganlyniad i fy nghais arbennig i awdurdodau Ffrainc, cytunodd *le Centre Historique des Archives Nationales* ym Mharis i roi llythyr Pennal ar fenthyg i Lyfrgell Genedlaethol Cymru yn ystod chwe mis ei harddangosfa bwysig am Owain Glyndŵr. Anfonwyd y llythyr gan Owain Glyndŵr i Siarl VI o Ffrainc. Yn ôl y gyfraith, y sawl sy'n derbyn y llythyr yw ei berchennog cyfreithlon. Ni ellir gwneud cais i'w ddychwelyd yn barhaol.